

**YMCHWILIAD CYHOEDDUS COVID-19 Y DEYRNAS UNEDIG
O FLAEN Y FARWNES HEATHER HALLETT
YN Y MATER: YMCHWILIAD CYHOEDDUS I ARCHWILIO'R PANDEMIG
COVID-19 YN Y DU**

**DATGANIAD AR RAN GRŴP 'TEULUOEDD MEWN PROFEDIGAETH COVID-19
ER MWYN CYFIAWNDER CYMRU' AR GYFER YR AIL WRANDAWIAD
RHAGARWEINIOL YN MODIWL 2**

RHAGYMWEINIAD

1. Gwneir cyflwyniadau ar ran y grŵp 'Teuluoedd Mewn Profedigaeth COVID-19 Er Mwyn Cyfiawnder Cymru' ('CBFJ Cymru') are y canlynol:
 - (i) Amrediad/materion i'w cwmpasu yn Modiwl 2
 - (ii) Ceisiadau Rheol 9
 - (iii) Datgeliad
 - (iv) Tystion arbenigol
 - (i) Cynigiad trefn tystiolaeth a Rheol 10
 - (ii) *Mae Pob Stori o Bwys* a choffâd

AMREDIAD / MATERION

2. Mae CBFJ Cymru yn nodi bod CTI yn cynnig y ffaith fod rhestr o faterion allweddol sydd i'w harchwilio yn y gwrandawriad ar gyfer Modiwl 2 yn cael ei cylchredu ym mis Ebrill 2023. Nodir y bwriad fod hyn am gael ei wneud gan roi ystyriaeth i'r nod o sicrhau cysondeb cyffredinol gyda Modiwlau 2A, 2B a 2C. Mae CBFJ Cymru yn cytuno bod ystyriaeth i amrediad a chrynhoad y rhestr o faterion ar gyfer Modiwl 2 hefyd angen ystyri y 4 modiwl er mwyn sicrhau yr ymdrinnir yn ddigonol â materion allweddol, yn enwedig o ran y cyfathrebu rhwng Llywodraethau, ac er mwyn sicrhau ymagwedd gyson.

3. Mae CBFJ Cymru yn nodi bod Modiwl 2 yn cynnwys yn ei amrediad amodol “*The central government structures and bodies concerned with the UK response to the pandemic and their relationships and communications with the devolved administrations in Scotland, Wales and Northern Ireland and regional and local authorities*”. Mae CBFJ Cymru yn ymstyng pa môr bwysig yw hi fod rhestr o faterion ym Modiwl 2 yn cynnwys y materion ganlynol, sy’n dod o fewn y paragraff uchod ynglŷn â’r amrediad amodol:

- (i) I ba raddau yr oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn enwedig gwybodaeth gwyddonol, feddygol a gwybodaeth arbenigol arall;
- (ii) Pam roedd y gweithredoedd na chymerwyd a’r rhai gymerwyd, gan Lywodraeth Cymru, yn wahanol i’r rhai a gymerwyd gan Lywodraeth y DU;
- (iii) Y berthynas a’r cyfathrebu rhwng Llywodraethau Cymru a’r DU cyn ac ar ôl Ionawr 2020 mewn perthynas â gynllunio ac ymateb i bandemig (gan gynnwys amllder ac ansawdd cyfarfodydd). Dylai hyn gynnwys ceisiadau gan Lywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU am gyllid ychwanegol a’r ymdrechion a wneir i sicrhau hynny.

4. Mae CBFJ Cymru yn argymhell y dylai’r rhestr o faterion i’w harchwilio hefyd gynnwys:

- a. A wnaeth unrhyw uwch weinidogion y Goron ystyried neu geisio defnyddio’r pwerau brys a gynhwysir yn adran 21 o’r Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 i wneud rheoliadau brys;
- b. Os na roddwyd ystyriaeth i’r pwerau hyn, pam ddim;
- c. Wrth fynd drwy’r Senedd, drwy’r llwybr arferol, a wnaeth unrhyw amser cael e’i gollu a allai fod wedi’i arbed drwy ddefnyddio’r pwerau sydd eisoes wedi’u cynnwys yn Neddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004; a
- d. A effeithiodd deddfiad Deddf Coronafeirws 2020 ar sut wnaeth y gwledydd datganoledig gwneud penderfyniadau eu hunain am bwerau brys.

5. Mae CBFJ Cymru yn mabwysiadu ac yn cefnogi’r cynnig a chafodd ei wneud yn ystod y gwrandawriad rhagarweiniol cyntaf mewn perthynas â Modiwl 2, ar ran y TUC,

ynglŷn â rhestru gwrandawriad byr ar ôl y gwrandawriadau ym Modiwlau 2A, 2B a 2C i ystyried y gwersi a ddysgwyd ar draws y modiwlau hyn, lle byddai'n agored i gyfranogwyr craidd Modiwl 2 wneud cyflwyniadau yn ymwneud â Modiwl 2 gyda'r fantais o fyfyrrio ar y dystiolaeth ym mhob un o'r 4 modiwl. Mae CBFJ Cymru yn cytuno bod hyn yn debygol o gynorthwyo'r Cadeirydd a'r Ymchwiliad yn eu gwaith.

CEISIADAU RHEOL 9

6. Mae CBFJ Cymru yn croesawu'r cyfle i nodi lle maent yn ystyried bod unigolyn nad yw'n ymddangos yn Atodiad A ond y byddai ei dystiolaeth o fudd Modiwl 2. Mae'n cynnig os nad yw'r ceisiadau Rheol 9 wedi'i gwasanaethu eisoes, y dylid ystyried cyflwyno cais Rheol 9 at Gyfarwyddwr Cyffredinol Cydgysylltu Argyfwng Covid-19 Llywodraeth Cymru, Mr Reg Kilpatrick. Rhagwelir y byddai'r Gyfarwyddwr Cyffredinol yn gallu rhoi tystiolaeth berthnasol bwysig am gydweithrediad rhynglywodraethol rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU.

DATGELIAD I CYFRANOGWYR CRAIDD

7. Mae CBFJ Cymru yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â cynnydd datgelu i Cyfranogwyr Craidd. Mae CBFJ Cymru yn gofyn os yw e-bost yn gallu cael ei anfon at Cyfranogwyr Craidd/eu cynrychiolwyr cyfreithiol er mwyn eu hysbysu fod cyfran newydd o ddatgeliad yn cael ei lanlwytho i'r gronfa ddata. Mae hyn wedi digwydd yng nghyswllt Modiwl 1. Heb hysbysiad o'r fath, mae'n anodd gwybod pryd mae dogfennau newydd yn cael eu derbyn.

TYSTION ARBENIGOL

8. Mae CBFJ Cymru yn ddiolchgar am y wybodaeth ynglŷn â rhannu drafft adroddiadau arbenigwyr gyda'r Cyfranogwyr Craidd ac yn croesawu'r cyfle i godi pwyntiau sy angen eglurhâd, neu faterion perthnasol ychwanegol gyda phob arbenigwr. Mae CBFJ Cymru yn edrych ymlaen i dderbyn rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y gall Cyfranogwyr Craidd ymgysylltu â'r broses hon. Mae CBFJ Cymru yn gofyn am ddigon o amser i sicrhau fod Cyfranogwyr Craidd yn medru rhoi ystyriaeth llawn i'r adroddiadau drafft cyn fydd cwestiynau/materion newydd yn cael ei codi.

CYNIGIAD TREFN TYSTIOLAETH RHEOL 10

9. Mae CBFJ Cymru yn nodi ac yn croesawu cefnogaeth y CTI i weithdrefn ychwanegol y cyfeirir ati ym mharagraffau 47-48 o'i nodyn, hynny yw, y gellir caniatáu i Cyfranogwyr Craidd gwrdd â'r CTI, ar ôl i'w sylwadau gael eu cyflwyno ar y cynigiad tystiolaeth sydd i'w ddarparu mewn perthynas â phob tyst a gaiff ei alw i roi tystiolaeth lafar, er mwyn cael cyfle i egluro'r rhesymeg dros y sylwadau yn well – llwybr anffurfiol i amlygu pwysigrwydd y materion a pham y mae angen eu codi gyda'r tyst.

10. Fe groesewir yr amserlen dros dro ar gyfer y broses hon.

11. Mae CBFJ Cymru yn awgrymu, yn unol ag Ymchwiliadau Cyhoeddus eraill, y dylid hefyd neilltuo cyfnod byr o amser ar ôl cwestiynau y CTI fel y gellir ystyried cwestiynau dilynol pellach sy'n codi o'r dystiolaeth gyda'r Cyfranogwyr Craidd.

MAE POB STORI O BWYS A CHOFFÂD

12. Mae CBFJ Cymru yn ddiolchgar i Gyfreithiwr yr Ymchwiliad am y wybodaeth ddiweddaraf ar y ddau fater uchod ac yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y ddau faes a'r cyfle i barhau i weithio gyda Thîm yr Ymchwiliad i gynorthwyo gyda *Mae Pob Stori o Bwys*.

LLOYD WILLIAMS KC

BETHAN HARRIS

KIRSTEN HEAVEN

NIA GOWMAN

LAURA SHEPHERD

Counsel

CRAIG COURT

Harding Evans Solicitors

RLR

27 February 2023